Gorllewin Sir Gâr

# Adroddiad Blynyddol Menter Gorllewin Sir Gâr 2018-2019

AMCANION:
Annog a chefnogi datblygiad cymunedol, ieithyddol ac economaidd.











# Rhagair y Cadeirydd

Mae hi wedi bod yn bleser bod yn Gadeirydd Menter Gorllewin Sir Gâr am flwyddyn arall. Blwyddyn sydd wedi gweld datblygiadau mawr o ran nifer o weithgareddau, gwasanaethau, staff a chyllid. Mae'r Fenter hefyd wedi gallu ehangu ei gwasanaeth gan gynnig amrywiaeth ehangach o weithgareddau a phrosiectau. Fe welwch swmp y gwaith yn yr adroddiad yma.

Fel pob blwyddyn mae ein dyled ni fel ymddiriedolwyr yn fawr i'r staff. Hoffwn ddiolch iddynt am eu gwaith caled ac ymroddiad. Hoffwn hefyd ddiolch a chydnabod gwaith caled gweddill yr ymddiriedolwyr. Mae pob un yn rhoi o'u hamser yn wirfoddol er mwyn sicrhau rhediad esmwyth y Fenter.

Diolchwn hefyd i'n prif gyllidwyr sef Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Gâr , Cronfa Loteri Fawr, Gwirfoddoli Cymru, Adran Gwaith a Phensiynau a Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygiad Gwledig.

Un o ddatblygiadau mawr y flwyddyn oedd sefydlu Gŵyl Canol Dre yng Nghaerfyrddin. Roedd y diwrnod yn llwyddiant ysgubol gyda miloedd yn ymweld â'r dre gan fwynhau y diwrnod, y tywydd a'r arlwy. Edrychwn ymlaen am ddeuddeg mis arall o waith caled a datblygiad wrth i ni geisio cyrraedd ein nod o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yn ardal Menter Gorllewin Sir Gâr."

Arwel Lloyd

**Staff**

| | |
|---|---|
| Dewi Snelson | Prif Weithredwr |
| Denise Davies | Swyddog Datblygu Profi |
| | Swyddog Gweinyddol (ers Ionawr '19) |
| Gwawr Williams | Swyddog Datblygu |
| | Swyddog Ardaloedd Blaenoriaeth (ers Mehefin '18) |
| Nia ap Tegwyn | Swyddog Datblygu |
| | Swyddog PQASSO (ers Medi '18) |
| Huw Lloyd | Swyddog Maes Digidol |
| Gareth Davies | Swyddog Maes Digidol |
| Meinir Evans | Cydlynydd Profi |
| Megan Lewis | Swyddog Maes Digidol (tan Mawrth '19) |
| Ceris Thomas | Swyddog Datblygu |
| Emyr Hopkin | Swyddog Maes Digidol (tan Medi '18) |
| Heledd Llwyd | Swyddog Byd Busnes |
| Sian Elin Williams | Swyddog Datblygu |
| Ceris Thomas | Swyddog Datblygu |
| Gwyneth Morris | Swyddog Datblygu |

**Pwyllgor rheoli**

| | |
|---|---|
| Arwel Lloyd | Cadeirydd (ers Hydref '17) |
| Fioled Jones | Is Gadeirydd (ers Hydref '17) |
| Dafydd Davies | Trysorydd |
| Hazel Evans | |
| Ken Davies | |
| Dafydd Hughes | |
| Myfanwy Jones | |
| Luned Thomas | |
| Jean Lewis | (ers Hydref '18) |

**Staff newydd 2019-2020**

| | |
|---|---|
| Sioned Thomas | Swyddog Prosiect Profi (ers Ionawr '19) |
| Llew Davies | Swyddog Maes Digidol (ers Ionawr '19) |
| Wendy Rees Burge | Swyddog Maes Digidol (ers Chwefror '19) |
| Alma Roberts | Swyddog Datblygu (ers Mehefin '19) |
| Meinir Davies | Swyddog Datblygu Prosiect Digidol Sir Gâr (ers Tachwedd '19) |

# Teuluoedd

Mae darpariaeth teuluoedd y Fenter wedi parhau i ddatblygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ein bwriad yw creu arfer ymysg teuluoedd i gymdeithasu'n naturiol yn y Gymraeg yn rheolaidd ac mae'r cyfleoedd rydym yn cynnig yn amrywio er mwyn sicrhau ein bod yn apelio at gynifer â phosib o bobl. Enghraifft o'r cyfleoedd rydym yn cynnig yw sesiynau Iaith a Chwarae i blant a'u rhieni mewn ysgolion cynradd, sesiynau stori rheolaidd, gweithgareddau Nadolig, mabolgampau meithrin a diwrnodau hwyl. Yn ystod y flwyddyn, trefnwyd 210 o ddigwyddiadau/sesiynau a mwynhaodd dros 7,334 o bobl a phlant weithgareddau cymdeithasol teuluol trwy gyfrwng y Gymraeg.

- 'Ni di bod i sesiynau stori a chân ers i Aled fod yn tua wyth wythnos oed. Ni'n mwynhau dod i'r sesiynau yma yn fawr iawn a dwi'n defnyddio'r caneuon yma adref hefyd gyda Aled, felly mae e'n dechrau dod i adnabod y caneuon ac mae'n hoffi clywed fi'n canu'r caneuon iddo fe.
  Dwi'n siarad Cymraeg gartref gyda Aled, ond mae rhaid dweud mae'n neis i ddod a cymysgu trwy cyfrwng y Cymraeg a bod Aled yn dod i adnabod caneuon a straeon Cymraeg, ni'n mwynhau a mae'r sesiynau yn grêt. Diolch.'

- 'Bore hyfryd! Bois wedi joio! Diolch am drefnu y sesiwn yma.'

- 'Prin yw'r llefydd hynny ma' mam yn gyffyrddus i fynd â babi pedwar mis oed a phlentyn dwy a hanner a phrinach fyth yw'r llefydd sy'n fodlon derbyn y fath lwyth! Mae Stori a Chân y Fenter yn Llyfrgell Caerfyrddin bob prynhawn dydd Llun yn un o'r llefydd hynny. Mae cymysgedd iach o rieni di-Gymraeg, dysgwyr a siaradwyr rhugl yn mynychu'n wythnosol a'r gynulleidfa yn amrywio o dri diwrnod oed i famgu yn ei saithdegau. Mae'n gyfle i blant a'u rhieni gael eu trochi yn y Gymraeg am dri chwarter awr a hynny drwy wrando ar stori a thrwy ganu, dawnsio o a chwarae.'

- 'Diolch Menter Gorllewin Sir Gâr! Y teulu i gyd wedi mwynhau yn fawr iawn.'





Mae dros 7,334 wedi mynychu ac elwa allan o weithgareddau teulu y Fenter eleni.

# Plant a phobl ifanc

Eleni fe wnaethom barhau i gynnal amryw o weithgareddau i blant a phobl ifanc. Mae'n hanfodol eu bod yn cael y cyfle i gymdeithasu a defnyddio'u Cymraeg tu allan i'r dosbarth. Ar gyfer y grŵp targed yma, mae'r ddarpariaeth a'r math o sesiynau yn amrywio er mwyn ateb y galw. Eleni, roedd y sesiynau a digwyddiadau yn cynnwys Cwis Dim Clem, Eisteddfodau Dwl, Côr Myrddin, Clybiau Pêl Droed a Rwyd, Clwb Drama, Clwb Flogio, Gigiau, Fforwm Ieuenctid, Gemau Buarth, Gweithdai Radio a llawer mwy. Mae'n allweddol bod cyfleoedd gwerthfawr o safon yn cael eu trefnu ar gyfer y grŵp targed yma ac mae'r Fenter yn gweithio'n galed i ddenu pobl ifanc a sicrhau eu hymrwymiad i'n gweithgareddau. Rydym wedi cael blwyddyn brysur a gweithgar gyda 398 o sesiynau a digwyddiadau yn cael eu cynnal gyda 6,667 yn mynychu.

- 'Cerys is growing in confidence both as a Welsh speaker and physically. It has been quite a rapid improvement.' Rhiant yn trafod y Clwb pêl-rwyd.

- 'Byddai fy mhlentyn ddim yn cael cyfle i mynychu sesiynau o unrhyw math ar ôl Ysgol trwy cyfrwng y Gymraeg. Nac yn cael cyfle i cymysgu a plant Cymraeg o ysgolion eraill yn yr ardal yn rheolaidd.' Rhiant yn trafod Clwb pêl-droed.

- 'Mae'r sesiynau wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r disgyblion yn enwedig gan ein bod yn ysgol ail iaith. Mae'n braf gweld nhw'n mwynhau trwy cyfrwng y Gymraeg.' 'Mae'n hyfryd cael cysylltiad gyda Menter Iaith a bod nhw'n dod i'r ysgol i godi ymwybyddiaeth o'r iaith ac yn hyrwyddo gemau ac adnoddau Gymraeg.' Athrawon yn sôn am sesiynau Gemau Buarth

- Braf oedd gweld fod 100% o'r ysgolion a fynychwyd er mwyn cynnal sesiynau Gemau Buarth yn teimlo fod y sesiynau wedi cynyddu hyder a'r defnydd o'r Gymraeg.

- 'Gwych a diolch enfawr i'r holl staff sy'n ymwneud a'r clwb. Mae'r Clwb Drama yn ffantastig, a fel rhiant rwyf wrth fy modd bod gan Hannah y cyfle yma.' 'Mae fy merch wedi elwa'n fawr o'r cyfle yma, enwedig wrth wneud drwy cyfrwng y Gymraeg.'

- Dywed mewn neges Trydar am Gig ym mis Ionawr 'Gwefreiddiol! Mae'r Gymraeg yn fyw ac yn iach! Diolch Menter Gorllewin Sir Gâr!'







Mae dros 6,500 o bobl ifanc wedi defnyddio'u Cymraeg trwy fynychu neu gymryd rhan yn nigwyddiadau a gweithgareddau'r Fenter dros y flwyddyn.

# Cymunedau Cymraeg

Mae sicrhau Cymunedau Cymraeg ffyniannus yn rhan greiddiol o waith y Fenter. Mae'n hanfodol bod cyfleoedd Cymraeg yn digwydd yn rheolaidd ar draws ardal y Fenter a bod yna amrywiaeth eang er mwyn apelio at ystod eang o bobl a bod trigolion yr ardal yn cael dewis. Enghraifft o'n gweithgareddau a digwyddiadau yw, nosweithiau cymdeithasol, sesiynau Yoga a Ffit-Fowns, cynnal sesiynau rheolaidd anffurfiol i ddysgwyr Cymraeg, cydlynu llwyfannau perfformio mewn digwyddiadau niferus ar draws yr ardal a threfnu Tudalen Gymraeg a cholofn wythnosol y Carmarthen Journal. Yn ogystal, yn 2018 cynhaliwyd ein Gŵyl Gymraeg gyntaf yng Nghaerfyrddin sef Gŵyl Canol Dre a denwyd tair mil o bobl.

Mae'r Fenter yn ffodus o gael dwy swyddfa leol ac mae pobl yr ardal yn ystyried fel pwynt cyswllt cyntaf os ydynt eisiau cymorth neu gyngor ar elfennau yn ymwneud â'r Gymraeg sydd yn dangos y berthynas iach rhwng y Fenter a'r gymuned. Rydym wedi trefnu 78 o weithgareddau yn ystod y flwyddyn ac mae dros 6,800 wedi manteisio a mwynhau'r darpariaeth.

- Diolch i drefnwyr Gŵyl Canol Dre am ddiwrnod arbennig iawn ac am eu holl waith caled. Roedd yn ddiwrnod bendigedig, digon o bethau i bawb o bob oed a bob cefndir i'w wneud ar y maes ac arlwy cerddorol heb ei ail. Mwy o ddigwyddiadau fel hyn sydd ei hangen yng Nghaerfyrddin, edrychwn ymlaen yn barod i Gŵyl Canol Dre 2019!

- Rydym ni'n ffodus iawn ac yn ddiolchgar i Fenter Gorllewin Sir Gar am drefnu'r sesiynau a hefyd i Alice am roi cynnig ar ddysgu yn y Gymraeg. Mae'n braf gweld pobl o gefndiroedd gwahanol yn cymdeithasu, rhai sydd â Chymraeg fel mamiaith ac eraill wedi dysgu Cymraeg.'

- 'Diolch am drefnu Siôn Corn sy'n siarad Cymraeg yn Noson Fictoraidd Castell Newydd Emlyn. Mae'r plant yn edrych mla'n i ddod i'r groto bob blwyddyn!'.

- Mae Gŵyl Fwyd Castell Newydd Emlyn yn ddigwyddiad yn y calendr rydym yn edrych ymlaen i bob blwyddyn. Mae'n rhoi cyfle i'r disgyblion dangos eu doniau ar lwyfan o flaen gynulleidfa, ac i gefnogi digwyddiad pwysig yn ein gymdogaeth.





**@Mentergsg** **@MenterGSG** **Menter Gorllewin Sir Gâr**

Trwy ein gwaith yn y maes hwn, mae dros 5,200 o drigolion wedi cael y cyfle i fynychu a defnyddio'u Cymraeg mewn degau o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn eu cymunedau lleol. Hefyd rydym yn amcangyfrif bod 30,000 o bobl wedi cael cyfleoedd ychwanegol i ddarllen Cymraeg ac i weld newyddion am ddigwyddiadau a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg drwy ein gwaith.

# Cymraeg Byd Busnes

Mae'r prosiect Cymraeg Byd Busnes yn cynnig cefnogaeth a chymorth am ddim i fusnesau ar eu defnydd o'r Gymraeg. Gall hyn gynnwys cyfieithu am ddim, marchnata dwyieithog, cymorth gyda recriwtio ac unrhyw gefnogaeth arall ynghylch eu defnydd o'r Gymraeg. Mae hwn yn brosiect cenedlaethol, ac mae 12 swyddog 'Cymraeg Byd Busnes' yn gweithio o swyddfeydd y Mentrau Iaith ledled Cymru.
Mae'r swydd yn yr ardal hon wedi ei rhannu rhwng Menter Gorllewin Sir Gâr a Menter Sir Benfro. Yn ystod y flwyddyn llwyddwyd i gael cyswllt â dros 50 o fusnesau yn ardal y Fenter hon, gan weithio yn 'ddwys' gyda rhyw 15 o'r busnesau hynny er mwyn cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg dros gyfnod penodol o amser. Llwyddwyd hefyd i fynychu 17 o ddigwyddiadau rhwydweithio/busnes yn y Sir er mwyn lledaenu'r neges am y prosiect.


Adborth y busnesau:
'We have have seen a very positive response from local companies since I have started posting the odd bits in Welsh and adding that we can provide a Welsh service on my linked in and on my email sign off. I have also posted some job adverts in Welsh where we have needed welsh speakers for the roles and this has helped generate more applications which is great.'

'The staff at the Welsh in Business have helped support my teams confidence to use the welsh language and not be afraid to give it a go!
The Welsh in Business are very helpful, prepared to listen to the needs of our business. They have never made us feel uncomfortable about our welsh language ability always reassuring and positive encouraging us with small steps so no one feels intimidated therefore the team are prepared to enhance their welsh language skills!'

'Mae Cymraeg Byd Busnes wedi'n cefnogi i ddefnyddio mwy ô Gymraeg ac i beidio bod yn swil, ond yn hytrach i ddefnyddio ein iaith fel mantais mewn busnes. Rydym wedi cael posteri, bathodynnau ac help gyda ein wefan a marchnata.  Diolch mawr am yr help ac am fod yn cefn i ni fel Cwmni, lleol, teuluol, Cymraeg.'

'Welsh for Business have supported us to use more of the Welsh language and to not be shy, instead using the language as an advantage in business. We've had posters, badges and help with our website and marketing. Thank you very much for the help and supporting us as a local, Welsh family business.'




*SPECIAL OFFER*
LIMITED STOCK, 97M/Y, Ssangyong Musso 2.2 EX Auto, Brand new, comes with a MASSIVE, 7 YEAR WARRANTY and 3.5 Tone Tow..... be quick, once it's gone it's gone!! Plus free of charge metallic silver!! Now just £16750!!!




Trwy ein gwaith yn y maes hwn yn ardal Menter Gorllewin Sir Gâr, mae dros 50 o fusnesau wedi clywed am y prosiect a'r cyfle i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg, ac mae 15 o fusnesau'r ardal wedi cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg, boed hynny yn arwyddion, bwydlenni, rhannau o wefannau ag ati yn ddwyieithog.

## Mentrau Iaith Cymru a Mentrau Sir Gâr

Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn rhan o rwydwaith Mentrau Iaith Cymru. Mae 22 o Fentrau Iaith yn weithredol yng Nghymru. Yn genedlaethol, mae'r Mentrau yn cynnal dros 300 o swyddi, yn ogystal â swyddi rhan-amser a chyfleoedd achlysurol eraill ar ben hynny. Mae'r Mentrau yn gweithio gydag oddeutu 1,000 o wirfoddolwyr ac yn cynnal dros 4,700 o weithgareddau bob blwyddyn gyda dros 160,000 o bobl yn cymryd rhan. Maent hefyd yn sicrhau dros £6.4m y flwyddyn i ddarparu gwasanaethau amrywiol.

Mae'r Fenter hefyd yn rhan o Fentrau Sir Gâr sydd yn bartneriaeth rhwng y dair Fenter o fewn y sir sy'n cynnwys MGSG, Menter Bro Dinefwr a Menter Cwm Gwendraeth Elli. Rydym yn cyd-ymgeisio am gyllid er mwyn rhedeg prosiectau sirol penodol ac yn rhannu gwybodaeth ac arfer dda.

## Cynhwysiad Digidol

Yn ystod 2018-19 parhaodd Y Fenter i weithredu cytundebau uniongyrchol gyda'r Canolfannau Gwaith i weithio gyda'r di-waith i'w cynorthwyo i ddatblygu sgiliau digidol, i greu e-byst a chyfrifon ar-lein, i chwilio am swyddi, i greu CVs ac i'w cynorthwyo i chwilio am a cheisio am swyddi.

Parhawyd i weithredu cytundebau yn Abertawe, Castell Nedd, Ceredigion, Sir Gâr a Port Talbot, tra derbyniwyd cytundeb o'r newydd i ddarparu'r wasanaeth yn Sir Benfro o fis Ionawr 2019. Ymunodd dau aelod newydd o staff â'r tîm digidol, un i weithio yn ardal Sir Benfro â'r llall yn ardaloedd Sir Gâr a Castell Nedd.

Darparwyd sesiynau unigol mewn ardaloedd yn cynnwys Aberteifi, Aberystwyth, Caerfyrddin, Llanelli, Rhydaman, Abertawe, Aberdaugleddau, Doc Penfro, Hwlfforddd, Castell Nedd a Phort Talbot. Defnyddiwyd cyfleusterau'r llyfrgelloedd yn rhai o'r ardaloedd ar gyfer darparu'r sesiynau, tra cynhaliwyd y sesiynau yn y canolfannau gwaith mewn lleoliadau eraill. Yn ystod y flwyddyn mynychodd dros 1,100 o unigolion y sesiynau amrywiol ar draws yr holl ardal.

Yn ystod 2018 cychwynnodd Cynllun Digidol Sir Gâr, prosiect wedi ei ariannu gan gronfa Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020. Mae'r cynllun yn cynnig pecyn cyflawn o gefnogaeth a gwybodaeth i aelodau'r cyhoedd i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder digidol i lefel a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio offer technoleg gwybodaeth i gael mynediad i wasanaethau. Darparwyd sesiynau digidol i'r cyhoedd mewn lleoliadau amrywiol ar draws Sir Gâr yn cynnwys llyfrgelloedd Caerfyrddin, Castell Newydd Emlyn a San Clêr a Neuadd Gymunedol Llanllwni.

Darparwyd sesiynau digidol i gefnogi pobl di-waith mewn un ar ddeg lleoliad ar draws chwe sir. Cefnogwyd dros 1,100 o unigolion.

# Profi

<u>Ein Hamcanion</u>

- Datblygu sgiliau byd gwaith pobl ifanc a chynyddu eu hunan hyder yn y byd gwaith;
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg yn y gweithle;
- Cryfhau capasiti sefydliadau lleol;
- Cefnogi adfywio lleol drwy annog gwariant

Mae'r Fenter wedi bod yn llwyddiannus o dderbyn grant o £203,000 gan Pawb a'i Le, Cronfa Loteri Fawr er mwyn adeiladu ar lwyddiant y cynllun peilot. Bydd y cynllun yn cynorthwyo 750 o bobl ifanc i wella eu sgiliau byd gwaith a defnydd y Gymraeg yn y gweithle, dros gyfnod o 3 blynedd.

**Cynyddu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg yn y gweithle**
Adborth y bobl ifanc: Sylwadau ar beth wnaeth y bobl ifanc ddysgu:

Dysgu am targed 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Roedd gweld yr ystod eang o brofiadau oedd ar gael wedi fy ysbrydoli i feddwl am lefydd nad oeddwn yn gwybod amdanynt o'r blaen.








Wedi dysgu bod 7 allan o 10 swydd yn gofyn am y Gymraeg.

Mwy o bobl ifanc yn siarad Cymraeg na'r pobl hen.

Ymwybodol o sut i strwythuro fy CV gan gynnwys y sgiliau cywir.

Mae 341 o ddisgyblion Blwyddyn 12 wedi cofrestru am gefnogaeth Rhaglen Profi gyda 542 yn mynychu sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith, 102 wedi mynychu sesiwn creu CV, 260 wedi elwa o sesiynau mentora a 242 wedi mynychu profiad gwaith, yn ogystal mae 105 wedi sicrhau swydd rhan amser. Yr ydym wedi sicrhau 24 busnes/sefydliad i gynnig gwobr i'r bobl ifanc am fod yn rhan o'r cynllun.

# PQASSO | Marc Elusen Ddibynadwy

Yn 2017 gosodd y Llywodraeth nod i bob Menter Iaith ac i bob mudiad oedd yn derbyn arian craidd oddi wrthynt i gwblhau marc safon PQASSO neu Marc Elusen Ddibynadwy fel y'i gelwir nawr. Rhyddhaodd y Fenter un aelod o staff am ryw flwyddyn, o Awst 2018, i weithio tuag at y marc safon ac i arwain a chydlynu'r broses. Mae'r marc safon wedi'i rhannu'n 11 maes ansawdd yn edrych ar bethau yn amrywio o reolaeth ac asesu canlyniadau i gynllunio a chyfathrebu allanol. Roedd y broses yn ein gorfodi i edrych ar ein systemau mewnol yn ogystal â'n dogfennaeth i sicrhau ein bod yn rhedeg ac yn cynnal ein hunain yn y ffordd mwyaf effeithlon ac agored. Fel rhan o'r broses, gyflwynom ac addasom nifer o bethau er lles y staff a'r fenter yn gyffredinol. Aeth y fenter trwy'r asesiad yn Mehefin 2019 a chwblhawyd y broses yn llwyddiannus.

# Ardaloedd Blaenoriaeth

Mae prosiect Ardaloedd Blaenoriaeth yn gweithio mewn wardiau yn cynnwys Ward Llanfihangel-ar-arth, Wardiau Caerfyrddin a Ward Cenarth. Mae heriau ieithyddol y tair ardal yn amrywio a nod y swyddog yw darparu sesiynau cynllunio o fewn partneriaid iaith, sefydliadau cymunedol a'r gymuned leol. Mae'r mewnbwn yn creu cynlluniau gweithredol er mwyn datblygu defnydd y Gymraeg yn yr ardaloedd ac i ddatblygu gweithgarwch a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y wardiau.

# Gŵyl Canol Dre

Cynhaliwyd Gŵyl Canol Dre am y tro cyntaf ar y 14eg o Orffennaf 2018 ym Mharc Myrddin, Caerfyrddin, sef un o brif ddigwyddiadau Cymraeg ardal Caerfyrddin a bu'n llwyddiant enfawr gan ddenu dros 3,000 o ymwelwyr. Roedd yr ŵyl yn ddiwrnod o hwyl ac adloniant ddenodd pobl o Sir Gâr a thu hwnt, wrth gynnwys amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau at ddant pawb, gan gynnwys perfformiadau o gerddoriaeth byw, chwaraeon, llenyddiaeth, celf ac amrywiaeth o weithdai. Roedd yna dau lwyfan yn cynnwys unigolion a bandiau adnabyddus o'r sîn roc Gymraeg yn perfformio ynghyd â pherfformiadau amrywiol gan ddwy ysgol ar bymtheg o'r ardal. Roedd yr ŵyl yn cynnig ardal stondinau, roedd yn cynnig ffenest siop i fusnesau lleol i werthu nwyddau a chynnyrch ac i fudiadau lleol i hyrwyddo eu gwasanaethau. Fe wnaeth y diwrnod yma sefydlu sylfaen i ddatblygu'r ŵyl ar gyfer y dyfodol.

# Partneriaethau

Mae gan y Fenter gysylltiadau agos gydag ystod eang o grwpiau, mudiadau a sefydliadau ac rydym yn cydweithio gyda:

Mudiad Meithrin
Cymraeg i blant
Menter Cwm Gwendraeth Elli
Menter Iaith Sir Benfro
Mentrau Iaith Cymru
Llywodraeth Cymru
Canolfan Hywel Dda
Busnesau lleol
Papurau Bro
Y Pwerdy, Pont Tyweli
Carmarthen Journal
Canolfannau Teulu
Llyfrgelloedd
Theatr Genedlaethol Cymru
Say Something in Welsh
Gŵyl Fwyd Castell Newydd Emlyn
Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Syniadau Mawr Cymru
Plaid Cymru
Tir Coed
Heddlu Dyfed Powys
Coleg Celf Sir Gâr
Breakthro
Future Works
Canolfan Cymraeg i Oedolion De Orllewin Cymru
Adran Hyfforddiant Cyngor Sir Ceredigion
Swyddogion Cynllun Datblygu Gwledig Sirol
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Partneriaeth Dysgu Sgiliau Rhanbarthol De Orllewin a Chanolbarth Cymru (RLP)
Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru

Merched y Wawr
Yr Atom
Menter Dinefwr
Cered
Cyngor Sir Caerfyrddin
Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr
Yr Urdd
Cynghorau Tref a Chymuned
Ysgolion cynradd ac uwchradd
Amgueddfa Wlân Drefach Felindre
AGP (DWP)
Actif Sir Gâr
Yr Egin
Coleg Sir Gâr
Neuadd yr Ysgol, Llanfihangel ar Arth
Gyrfa Cymru
Bwcabus | Cynllun Linc
Cwmni Sgema
Prifysgol Abertawe
MiFuture
Bwrdd Iechyd Hywel Dda
CAVS / CAVO
Gwirfoddoli Cymru

Mae'r Fenter yn aelod o'r Grŵp Cefn Gwlad Sirol, y Grŵp Gweithredu Lleol ynghyd â Grŵp Partneriaeth Mentrau Sir Gâr.

**Menter Gorllewin Sir Gâr**
Llawr 1af CCF Cyf, Stryd y Bont, Castell Newydd Emlyn, Sir Gâr, SA38 9DX.
Yr Atom, 18 Stryd Y Brenin, Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 1BN.
01239 712934 ● www.mentergorllewinsirgar.cymru
*Cwmni Cyfyngedig drwy warant rhif cofrestredig 5981013 ● Elusen Gofrestredig rhif 1147184*